



DWP

Department for
Work and Pensions

Adran Gwaith
a Phensiynau

Ymgynghoriad cyhoeddus

Budd-dal Profedigaeth ar gyfer y 21ain Ganrif

Crynodeb gweithredol

Cynnwys

Rhagair y Gweinidog	3
Crynodeb gweithredol	5

Rhagair y Gweinidog

Un o'r tasgau allweddol sydd wedi wynebu'r Llywodraeth dros y flwyddyn a hanner ddiwethaf yw'r gwaith sylfaenol o ailasesu'r rôl y dylid ei chwarae gan y system les yn y 21ain ganrif. Mae'r adolygiad hwn wedi'i seilio ar egwyddorion tegwch a hunanddibyniaeth. Ei nod yw adnabod y manteision a all ddod yn sgîl cael swydd, ond hefyd cydnabod na fydd rhai pobl, ar rai adegau yn eu bywydau, yn gallu gweithio ac y bydd angen cymorth arnynt. Nid arbed costau yw ein prif nod ond gwella system sydd ar ei hôl hi.

Pan fo'u priod yn marw, mae'n ddigwyddiad sy'n newid bywydau pobl. Mae pobl mewn profedigaeth yn wynebu'r dasg o roi trefn ar eu bywydau unwaith eto yn emosiynol, yn gymdeithasol ac yn ariannol. Gwyddom fod y broses hon yn amrywio'n sylweddol yn ôl amgylchiadau personol, ac mae pobl yn defnyddio ystod eang o ddulliau cymorth i ymdopi. Mae budd-daliadau profedigaeth yn rhan bwysig o rwyd diogelwch y wladwriaeth ar yr adeg hon.

Ond mae'r budd-daliadau hyn y tu allan i gwmpas yr adolygiadau diweddar a gafwyd o'r system les ehangach. Yn wir, prin yw'r adegau y maent wedi cael eu harchwilio'n feirniadol er mwyn penderfynu a ydynt yn rhoi cymorth effeithiol ai peidio ar ôl i briod neu bartner sifil farw. Ar adeg pan rydym yn edrych yn ofalus iawn ar ein holl systemau i sicrhau eu bod yn cyflawni'r pwrpas a fwriadwyd, mae'n briodol ystyried sut y gallwn wella budd-daliadau profedigaeth.

Am y rheswm hwnnw, rwyf wedi comisiynu adolygiad ag iddo ddwy ran bwysig:

- **Prosiect ymchwil gymdeithasol**, er mwyn deall yn well brofiadau diweddar pobl o gael budd-daliadau profedigaeth;
- **Y ddogfen ymgynghori** hon, sy'n gofyn am farn arbenigwyr yn y maes, y rhai â phrofiad o brofedigaeth ac aelodau o'r cyhoedd ar unrhyw welliannau y gellir eu gwneud.

Mae eich cyfraniad yn hanfodol er mwyn sicrhau y gallwn roi cymorth mwy effeithiol ar ôl i briod neu bartner sifil farw, a gwella'r system mewn ffordd ystyrlon a pharhaus.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.



Yr Arglwydd Freud
Y Gweinidog Diwygio Lles

Crynodeb gweithredol

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn rhan hanfodol o adolygiad y Llywodraeth hon o fudd-daliadau profedigaeth. Rydym yn gofyn am farn pobl ar sut y dylai'r taliadau hyn gynorthwyo gweddwon a phartneriaid sifil gweddw o oedran gweithio yn y dyfodol. Ni fydd yr adolygiad hwn yn effeithio ar daliadau a wneir o dan y Cynllun Pensiwn Rhyfel neu Gynllun Iawndal y Lluoedd Arfog. Ni fydd yr adolygiad yn effeithio ar y rhai sydd eisoes yn cael budd-daliadau profedigaeth pan gaiff cynllun newydd ei gyflwyno.

Yr angen i newid

Mae budd-daliadau profedigaeth wedi bod yn destun cyfres o ddiwygiadau ers cyflwyno trefniadau'r wladwriaeth i ddiogelu gwragedd gweddw yn wreiddiol fel rhan o Ddeddf Pensiwn Cyfrannol ar gyfer Gwragedd Gweddw, Plant Amddifad a'r Henoed 1925. Mae'r egwyddorion sydd wrth wraidd y budd-daliadau a'u swyddogaeth wedi'u cymylu yn sgîl cyflwyno'r newid hwn fesul cam. Mae hyn wedi arwain at system daliadau a chyfraniadau cymhleth a all, ar ei gwaethaf, niweidio rhagolygon swyddi pobl yn yr hirdymor drwy ynysu'r rhai sy'n cael y budd-dal o'r farchnad lafur.

Ar hyn o bryd mae budd-daliadau profedigaeth yn cynnwys tri math gwahanol o daliad:

- **Taliad Profedigaeth** – taliad untro di-dreth o £2,000 sy'n daladwy i rywun ar ôl marwolaeth ei wraig, ei gŵr neu bartner sifil.
- **Lwfans Profedigaeth** – budd-dal wythnosol trethadwy y gellir ei dalu i rywun am hyd at 52 o wythnosau ar ôl dyddiad marwolaeth ei wraig, ei gŵr neu bartner sifil os yw dros 45 oed ac o dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth.
- **Lwfans Rhiant Gweddw** – budd-dal wythnosol trethadwy a all fod yn daladwy i riant y bu ei wraig, ei gŵr neu bartner sifil farw os oes ganddo/ganddi o leiaf un plentyn y mae'n cael Budd-dal Plant ar ei gyfer. Mae'r budd-dal hwn yn daladwy hyd nes y bydd yr hawliwr yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth neu'n dechrau cyd-fyw â rhywun neu'n ailbriodi/ neu'n ffurfio partneriaeth sifil.

Nid yw budd-daliadau profedigaeth wedi'u cynnwys o fewn cwmpas yr adolygiadau diweddar a gafwyd o'r system les a phensiynau'r wladwriaeth. Mae'r duedd gynyddol hon o ynysu pobl yn y dirwedd les wedi pwysleisio'r angen i adolygu rôl budd-daliadau profedigaeth yn y dyfodol.

Gwyddom y caiff rhai elfennau o'r cymorth a ddarperir i bobl briod a phartneriaid sifil gweddw eu gwerthfawrogi'n fawr: mae'r Taliad Profedigaeth, sef cyfandaliad a delir o fewn wythnos fel arfer, yn rhoi cymorth ariannol ar unwaith ar adeg pan all fod yn anodd cael gafael ar adnoddau eraill sydd ar gael yn sgil gofynion gweinyddol beichus. Yn yr un modd, mae cyflwyno'r gwasanaeth 'Tell Us Once'¹ yn symleiddio'r broses o gysylltu â'r llywodraeth.

Ond yn amlwg, mae mwy y gellir ei wneud i sicrhau bod budd-daliadau profedigaeth yn cyflawni eu dibenion yn well. Mae'r system dalu a'r amodau cymhwysu cymhleth yn ei gwneud yn anodd i bobl ddeall beth sydd ganddynt hawl i'w gael. Mae natur barhaus y taliadau a wneir o dan y Lwfans Rhiant Gweddw, a all barhau am hyd at 20 mlynedd mewn achosion eithafol, heb unrhyw anogaeth i gadw mewn cysylltiad â'r farchnad lafur, yn peri risg o greu dibyniaeth ar y wladwriaeth.

Ymchwil Gymdeithasol

Mae'r Adran wedi comisiynu ymchwil gymdeithasol ar sampl o bobl sydd wedi cael budd-daliadau profedigaeth yn ystod y 12 i 18 mis diwethaf, er mwyn deall yr effaith ar fywydau pobl ar ôl i briod farw, yr anghenion sy'n codi o ganlyniad, a'r graddau y mae'r ddarpariaeth bresennol yn diwallu'r anghenion hynny.

Caiff yr adroddiad ymchwil ei gyhoeddi'n llawn ym mis Chwefror, ond mae'r canfyddiadau cychwynnol yn nodi'r canlynol:

- yn achos y rhan fwyaf o bobl, waeth beth fo'u hincwm cartref neu p'un a ydynt yn gweithio ai peidio, mae marwolaeth priod neu bartner sifil o oedran gweithio yn cael effaith ariannol sylweddol, sy'n arbennig o aciwt yn yr ychydig fisoedd sy'n dilyn y brofedigaeth;
- roedd yr effeithiau ariannol hirdymor yn fwy amrywiol, gyda chydberthynas, yn ôl pob golwg, rhwng bod y tu allan i'r farchnad lafur a chael anghenion ariannol sylweddol parhaus;
- gall fod yn anodd iawn gwneud penderfyniadau yn ystod y cyfnod hwn.

Teimlai'r rhan fwyaf o bobl fod budd-daliadau profedigaeth yn werthfawr iawn, ond teimlai rhai y gellid eu gwella pe bai'r llywodraeth yn gwneud mwy o ryngweithio yn ystod y cyfnod talu, er mwyn cynnig cymorth cyflogaeth sensitif ac ailadrodd gwybodaeth ymarferol am y budd-dal ar adeg y gellir ei deall yn haws. Roedd yr ymatebwyr a oedd yn llai cadarnhaol am fudd-daliadau profedigaeth yn aml wedi cael budd-daliadau eraill y wladwriaeth ar adeg y brofedigaeth gan nodi bod budd-daliadau profedigaeth yn lleihau'r taliadau eraill hyn.

¹ Rhaglen sy'n galluogi pobl i roi gwybod i'r llywodraeth am enedigaeth neu farwolaeth dim ond unwaith yw Tell Us Once. Ddiwedd mis Tachwedd 2011 roedd y gwasanaeth hwn yn cael ei gynnis mewn tua 220 o awdurdodau lleol.

Ein hegwyddorion ar gyfer diwygiadau

Mae gan y llywodraeth rôl bwysig i'w chwarae wrth ddarparu rhywfaint o ryddhad o'r pwysau ariannol sy'n gysylltiedig â cholli priod o oedran gweithio. Dylai budd-daliadau profedigaeth gynnig cymorth ariannol yn y tymor byr er mwyn helpu'r broses o addasu. Yn achos y rhai nad ydynt mewn cyflogaeth, dylai'r llywodraeth, ar adeg briodol, eu hannog i ddychwelyd i'r gwaith gyda chymorth. Dylai'r broses hon fod mor syml â phosibl, gan gynnig elfennau o sicrwydd ar adeg o newid mawr.

Mae ein nodau ar gyfer moderneiddio budd-daliadau profedigaeth fel a ganlyn:

- dylent fod yn syml i'w deall ac i wneud cais amdanynt;
- dylent ddarparu help ariannol yn gyflym ac yn ddiffwdan i ddiwallu anghenion pobl ar y pryd ar ôl i briod neu bartner sifil farw;
- dylent roi'r hyblygrwydd sydd ei angen arnynt i'r rhai sy'n cael y budd-dal i gymryd rheolaeth o'u sefyllfa unwaith eto yn ystod y cyfnod yn union ar ôl y profedigaeth;
- dylai fod cymorth ychwanegol i deuluoedd, i gydnabod y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â magu plant;
- dylent alluogi'r rhai sy'n cael y budd-daliadau i gael gafael ar y cymorth ariannol a'r cymorth sy'n canolbwyntio ar waith a ddarperir gan Gredyd Cynhwysol ar adeg sy'n addas iddynt;
- dylent fod yn deg a hyrwyddo hunanddibyniaeth.

Ein cynigion ar gyfer diwygiadau

Drwy'r ymgynghoriad hwn rydym yn gofyn am farn pobl ar gynigion i:

- **symleiddio'r system dalu:** drwy symud i un strwythur talu ar gyfer pawb sy'n cael y budd-dal, gyda chymorth sy'n canolbwyntio ar y cyfnod yn union ar ôl profedigaeth;
- **symleiddio amodau'r cyfraniadau:** drwy seilio taliad llawn ar un flwyddyn o gyfraniadau Yswiriant Gwladol;
- **ailenwi'r budd-dal:** fel bod enw'r budd-dal yn adlewyrchu swyddogaeth y taliad.

Goblygiadau ariannol

Nod yr adolygiad a'r ddogfen ymgynghori hon yw sicrhau bod budd-daliadau profedigaeth yn rhoi cymorth effeithiol ar ôl i briod neu bartner sifil farw, ac nid lleihau gwariant y llywodraeth yn y maes hwn. Fodd bynnag, rhaid i unrhyw ddiwygiadau arfaethedig fod yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy.

Er mwyn sicrhau y gellir cynnal ymgynghoriad ystyrlon, rydym wedi cynnwys symiau enghreifftiol ar gyfer y taliadau budd-dal profedigaeth arfaethedig yn y ddogfen hon. Noder **nad ffigurau terfynol yw'r rhain**, dim ond awgrym o lefel y taliad a ragwelir ar hyn o bryd o dan system ddiwygiedig o fudd-daliadau profedigaeth.

ISBN 978-1-84947-928-8

(h) Hawlfraint y Goron 2011

Cyhoeddwyd gan yr Adran Gwaith
a Phensiynau

Rhagfyr 2011

www.dwp.gov.uk/cymraeg